TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# CBAC Diploma Sylfaen mewn Celf a Dylunio Lefel 3/4



### Yn gryno

Nod y cwrs hwn yw canfod diddordebau a chryfderau unigol o fewn ystod o ddisgyblaethau celf a dylunio a'ch paratoi ar gyfer mynediad i Addysg Uwch

### Dyma'r cwrs i chi os...

... Ydych eisiau astudio Celf a Dylunio yn y Brifysgol

... Ydych yn greadigol

... Ydych eisiau gwthio eich galluoedd creadigol i ddod o hyd i'ch llwybrau dewisol

### Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae'r cwrs hwn yn addas ar gyfer ystod o fyfyrwyr, gydag amrywiaeth o sgiliau academaidd a chreadigol. Y nod yw ymestyn eich galluoedd creadigol a darganfod pa lwybr gyrfa sy'n addas i chi.

Byddwch hefyd yn ennill profiad ymarferol o cerameg, gwneud printiau, ffasiwn a thecstilau, yn ogystal â'r elfennau craidd - yn seiliedig ar luniadu a pheintio, graffeg a chyfrifiaduron, ac astudiaethau hanesyddol a chyd-destunol. Byddwch yna'n datblygu yn eich cyfeiriad dewisol. Byddwch yn cael arweiniad gofalus ar gyfer paratoi eich portffolio yn barod ar gyfer cyfweliadau.

Mae'r cwrs hwn wedi ei rannu i 3 cham sy'n cynnwys 3 tymor academaidd:

Cam 1 - Archwilio iaith weledol greadigol ym maes celf a dylunio
Cam 2 - Datblygu ymarfer arbenigol a pharatoi ar gyfer dilyniant ym maes celf a dylunio
Cam 3 - Cynllunio, creu a chyflwyno prosiect celf a dylunio mawr

Asesir y cwrs hwn drwy ystod o weithgareddau, gan gynnwys asesiadau ymarferol ac ysgrifenedig, cyflwyniadau, portffolios ac arsylwadau. Pan fyddwch yn ei gwblhau, byddwch yn cyflawni Diploma Astudiaethau Sylfaenol CBAC mewn Celf a Dylunio.

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

I gofrestru, fel arfer, bydd angen i chi feddu ar gymwysterau Safon Uwch neu gymhwyster Lefel 3 cyfatebol mewn Celf, gan gynnwys pwnc celf a dylunio. Croesawir ceisiadau gan fyfyrwyr nad ydynt yn meddu ar gymwysterau ffurfiol ond sy'n meddu ar brofiadau amgen os gellir darparu tystiolaeth o allu artistig yn ystod y cyfweliad.

Mae hwn yn gwrs aml-ddisgyblaethau a'r nod yw rhoi rhagflas i chi ar amrywiaeth o bynciau ym maes celf a dylunio megis darlunio, arlunio, astudiaethau cyd-destunol, tecstilau, serameg, ffotograffiaeth, printio a graffeg.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Cyrsiau Addysg Uwch ar draws yr ystod lawn o gelf, dylunio a phynciau cysylltiedig.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Fel rhan o'r gofynion mynediad, bydd disgwyl i chi fynychu cyfweliad adolygu portffolio lle byddwch yn arddangos eich addasrwydd ar gyfer y cwrs. Yn ystod y cyfweliad byddwch yn cyflwyno eich portffolio a llyfrau braslunio i'r tîm cwrs. Dylai eich gwaith arddangos eich gallu i

fynegi a datblygu eich syniadau.